



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG51827

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Gorchymyn Drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl)

8 Mai 2025

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx ISBN Digidol

Trosolwg

Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad ar Orchymyn Drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 a gynhaliwyd rhwng 25 Tachwedd 2024 a 17 Chwefror 2025.

Camau i'w cymryd

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Etholiadau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Etholiadau.Elections@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: [Ymgynghoriad ar Orchymyn drafft Senedd Cymru \(Cynrychiolaeth y Bobl\) \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Cynnwys

Cynnwys.....	3
1. Cyflwyniad.....	4
2. Trosolwg o'r ymatebion	5
3. Crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad	6
Cwestiwn 1 – Adlewyrchu'r system etholiadol newydd	6
Cwestiwn 2 – Gwariant Etholiadol.....	8
Cwestiwn 3 – Post etholiadol am ddim	10
Cwestiwn 4 – Cywiriadau Datganiadau Pleidlais drwy'r Post	11
Cwestiwn 5 – Datganiad o aelodaeth plaid	13
Cwestiwn 6 – Hygyrchedd.....	14
Cwestiwn 7 – Cynnwys a fformat y ffurflenni	16
Cwestiwn 8 – Ffurflenni templed	17
Cwestiwn 9 – y Gymraeg	19
Cwestiwn 10 – Unrhyw faterion pellach	21
4. Digwyddiadau ymgysylltu a rhanddeiliaid	22
5. Y camau nesaf	23
6. Rhestr o'r ymatebwyr	24

1. Cyflwyniad

1.1 Daeth yr ymgynghoriad ar Orchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (a elwir hefyd “y Gorchymyn Cynnal Etholiadau”) i ben ar 25 Tachwedd. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 17 Chwefror.

1.2 Mae'r Gorchymyn Ymddygiad yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal etholiadau i'r Senedd. Mae'n manylu ar sut y dylid cynnal yr etholiad a'i ymgyrch, ac mae hefyd yn ymdrin â'r broses o ran heriau cyfreithiol i etholiad.

1.3 Mae'r Gorchymyn drafft yn rhoi newidiadau ar waith i adlewyrchu datblygiadau yn y maes etholiadau ehangach ers etholiad y Senedd 2021, gan gynnwys:

- cynigion polisi a amlinellwyd yn y Papur Gwyn ar Ddiwygio Etholiadol ym mis Hydref 2022 a thrwy Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024, a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 9 Medi 2024;
- gweithredu newidiadau deddfwriaethol sy'n ofynnol gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, gan adlewyrchu mai dim ond etholiadau etholaethol a fydd yn cael eu cynnal o hyn ymlaen, gyda dim ond pleidiau ac ymgeiswyr unigol yn sefyll yn yr etholaethau hynny.

1.4 Mae newidiadau wedi'u gwneud i sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn y Gorchymyn drafft yn rhywedd-niwtral ac i wella ei hygyrchedd.

1.5 Fel rhan o'r broses ymgynghori cynhaliwyd pum digwyddiad ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau (ROs), rheolwyr gwasanaethau etholiadol, y Comisiwn Etholiadol (EC), Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA), y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, pleidiau gwleidyddol a sefydliadau cymdeithas sifil sy'n gweithio i hyrwyddo ymgysylltiad mewn democratiaeth. Cawsant eu dylunio i geisio barn rhanddeiliaid ac i brofi'r defnydd ymarferol o'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad. Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol hefyd, gan gynnwys fel rhan o gyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Gorchymyn.

1.6 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori.

2. Trosolwg o'r ymatebion

2.1 Daeth cyfanswm o 109 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law drwy'r ffurflen ar-lein a thrwy e-bost oddi wrth aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Roedd 66 o'r ymatebion hyn yr un fath fel rhan o ymgyrch e-bost benodol.

Tabl 1: Nifer yr ymatebwyr yn ôl math ar draws holl fformatau'r arolwg.

Math o Ymatebydd	Nifer yr ymatebwyr	Canran
Aelod o'r cyhoedd	19	44.2 %
Gweinyddwr etholiadol	7	16.3 %
Corff statudol / Corff cynrychioliadol / Corff neu Gymdeithas Broffesiynol Association	6	14.0 %
Y Trydydd Sector	2	4.7 %
Arall	3	7.0 %
Plaid wleidyddol	5	11.6 %
Ddim yn hysbys	1	2.3 %
Ymgyrch E-bost	66	am.

2.2 Mae rhestr o'r holl ymatebwyr wedi'i chynnwys yn Adran 6. Mae canrannau drwy gydol y ddogfen hon yn cael eu talgrynnu i un pwynt degol ac felly efallai na fyddant yn symio i 100%.


2.32 Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad yn Adran 3. Nid yw'r ffigurau sy'n ymwneud ag ymatebion i gwestiynau penodol yn cynnwys y 66 o negeseuon e-bost ymgyrch a ddaeth i law. Ymdrinnir â'r rhain o dan gwestiwn 1.

2.4 Ni wnaeth rhai ymatebion ateb cwestiynau penodol ond yn hytrach fe wnaethant roi ymateb cyffredinol. Rhoddir cyfrif am yr ymatebion hyn o dan y cwestiwn perthnasol lle bo'n gymwys, neu yn y crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau mwy cyffredinol 1 a 10.

3. Crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – Adlewyrchu'r system etholiadol newydd

A yw'r gweithdrefnau a amlinellir yn y Gorchymyn drafft yn adlewyrchu'n gywir y gofynion ar gyfer cynnal etholiad llwyddiannus o dan system etholiadol newydd y Senedd?



Roedd cefnogaeth resymol o du'r ymatebwyr hynny a atebodd naill ai gyda 'ie' neu 'nage', ynghylch a oeddent o'r farn bod y gweithdrefnau a amlinellir yn y Gorchymyn drafft yn cynrychioli yn gywir y gofynion ar gyfer cynnal etholiad llwyddiannus o dan system etholiadol newydd y Senedd.

Ymatebodd y nifer uchaf (37%) o'r ymatebwyr gyda 'na'. Roedd mwy na hanner yr ymatebion hyn yn ymatebion oddi wrth aelodau o'r cyhoedd a gyflwynodd bryderon polisi gyda Diwygio'r Senedd yn hytrach na'r ffordd yr oedd y polisi yn cael ei gynrychioli yn y rheolau. Mynegodd nifer sylweddol anfodlonrwydd cyffredinol tuag at y Senedd neu'r system etholiadol newydd. Nid oedd un ymatebydd yn cytuno â'r ffordd yr oedd yr ymgynghoriad wedi'i lunio.

Mynegodd rhai gweinyddwyr bryderon ynghylch sut y caiff y rheolau eu rhoi ar waith, yn hytrach na'r rheolau eu hunain. Roedd y rhain yn cynnwys cymhlethdodau a heriau logistaidd gweithio trawsffiniol, gan gynnwys lefel y cydgysylltu sy'n ofynnol ar draws etholaethau. Roedd hyn yn cyfrif am y prif reswm y tu ôl i lawer o'r ymatebion negyddol i'r cwestiwn hwn oddi wrth randdeiliaid.¹⁰³ Awgrymwyd hefyd y byddai angen adnoddau a chanllawiau digonol i reoli'r etholaethau mwy a chynyddu nifer yr etholwyr o fewn y rhain.

Nododd rhai rhanddeiliaid y dylai'r Gorchymyn, y canllawiau cysylltiedig a'r cynlluniau ymgysylltu fod ar waith erbyn mis Hydref 2025 i roi amser rhesymol i

swyddogion etholiadol baratoi ar gyfer etholiad y Senedd 2026. Tynnwyd sylw at yr angen am ymgyrch gyfathrebu gadarn, i sicrhau bod pleidleiswyr yn deall y system bleidleisio newydd a'i goblygiadau yn llawn i osgoi dryswch a chamwybodaeth.

Codwyd pryderon amrywiol ynghylch y System Rheoli Etholiadau (EMS) ymhlith rhanddeiliaid allweddol. Cododd rhai'r angen am borth sydd ar gael yn genedlaethol ar gyfer cyflwyno papurau enwebu yn electronig. Ceisiwyd eglurhad hefyd ynghylch defnyddio llofnodion electronig.

Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, cawsom adborth ar faterion penodol hefyd. Roedd hyn yn cynnwys pryderon am y gweithdrefnau ar gyfer cywiro datganiadau pleidlais drwy'r post a'r goblygiadau posibl i etholwyr a gweinyddwyr. Trafodir hyn yn fanylach o dan gwestiwn 4.


Mynegodd RNIB Cymru ei fod yn anghytuno â'r dull a fabwysiadwyd yn Rheol 37 ynglŷn â'r ddarpariaeth ynghylch y cyfarpar y mae'n ofynnol i Swyddogion Canlyniadau ei ddarparu mewn gorsafoedd pleidleisio.

Nodwyd y gallai fod angen diweddariadau pellach i'r Gorchymyn drafft oherwydd newidiadau posibl eraill yn y dirwedd etholiadol. Tynnodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol sylw hefyd at yr angen i roi trefniadau pontio canlyniadol ar waith i atal pleidleisiwr datganoledig presennol drwy'r post rhag colli ei bleidlais cyn etholiadau datganoledig 2026 oherwydd cysoni rheolau.

Roedd ymgyrch e-bost benodol o 66 o ymatebion. Roedd y rhain yn cyflwyno pryderon nad oedd gan y Gorchymyn drafft ddarpariaeth ar gyfer nodi ymgeiswyr sy'n sefyll i'r Blaid Lafur a'r Blaid Gydweithredol ac y gallai hyn effeithio ar allu'r Blaid Gydweithredol i ymgyrchu'n effeithiol. Felly roedd galwad i ddatrys hyn drwy ganiatáu i gyd-ymgeiswyr gael eu nodi ar y papur pleidleisio, gan ei gneud yn glir drwy farc bod ymgeiswyr o'r fath hefyd yn sefyll dros y Blaid Gydweithredol.

Cwestiwn 2 – Gwariant Etholiadol


a – A ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu o ran y dylai'r amserlen a roddir i ymgeiswyr unigol roi cyfrif am eu gwariant etholiadol gyd-fynd â'r amserlen a roddir i bleidiau roi cyfrif am eu gwariant?



Er nad oedd y mwyafrif o'r sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r cwestiwn penodol ei hun, gan gynnwys yr holl rai a atebodd "nage", roedd y rhai a wnaeth ateb o blaid cysoni'r cyfnod wedi'i reoleiddio ar gyfer ymgeiswyr â chyfnod y pleidiau. Rhoddwyd rhesymau symlrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.

Roedd yr ymatebion hynny nad oeddent yn ymwneud â'r cwestiwn yn ymwneud yn bennaf â Diwygio'r Senedd yn ehangach, cael gwared ar dreuliau, neu anfodlonrwydd â gwleidyddiaeth.

b – A ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o wneud y terfyn treuliau etholiad ymgeiswyr unigol yn gyson â'r terfyn ar gyfer treuliau plaid?



Bydd y modd y caiff y cyswllt hwn ei wneud yn dibynnu'n rhannol ar y dull terfynol a ddefnyddir ar gyfer terfynau pleidiau, ond y cynnig yw gosod y terfyn ar gyfer ymgeisydd unigol ar yr un lefel â'r terfyn a fyddai'n gymwys pan fo plaid wleidyddol gofrestredig yn cyflwyno un ymgeisydd mewn etholaeth neu'r terfyn a fyddai'n gymwys pan fo plaid wleidyddol gofrestredig yn sefyll mewn un etholaeth.


Nid oedd y rhan fwyaf o'r sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r cwestiwn ei hun. Mynegodd sawl un ddymuniad o blaid terfyn gwariant o sero. Gwnaeth un ymatebydd y pwynt na ellir ateb y cwestiwn yn iawn nes y bydd y terfynau ar gyfer y pleidiau yn hysbys.

Pwysleisiodd yr un ymatebydd bwysigrwydd sicrhau bod ymgeiswyr unigol, pleidiau llai, a phleidiau mwy yn cael eu trin yn yr un modd. Yn benodol, roedd yr ymatebydd yn pryderu na ddylai fod gan ymgeisydd neu blaid fach derfyn a oedd yn sylweddol is na therfyn plaid fwy.

Roedd ymateb arall o blaid y cynnig i gysoni â rhestr plaid o un, gan ddweud ei fod yn sicrhau tegwch, a nododd yr ymatebydd ei fod yntau o blaid terfyn plaid gofrestredig a oedd yn uwch ar gyfer rhestr o fwy o ymgeiswyr.

Cwestiwn 3 – Post etholiadol am ddim

A ydych chi'n rhagweld unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai ddeillio o'r ddarpariaethau diwygiedig yn erthygl 67 o'r Gorchymyn drafft o ran yr hawl i anfon post etholiadol am ddim, yr ystyrir eu bod, ar y cyfan, yn gymaradwy â'r rhai yng Nghorchymyn 2007?




Ni nodwyd unrhyw ganlyniadau anfwriadol a oedd yn ymwneud yn benodol â'r newidiadau arfaethedig yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r dull i'r graddau y mae'n cynnal y ddarpariaeth bresennol.

Er hynny, codwyd pryderon am allu'r gwasanaeth post i reoli'r broses yn effeithiol fel y mae ar hyn o bryd. Cynigiodd un ymateb y dylid gwirio ffeithiau ar gyfer y post am ddim a anfonir, a dywedodd un arall y dylid rhoi'r gorau i'w ddarparu.

Roedd sawl un o'r rhai a atebodd "ie" o blaid cael gwared ar unrhyw ddarpariaeth post am ddim yn llwyr.

Cwestiwn 4 – Cywiriadau Datganiadau Pleidlais drwy'r Post

A oes unrhyw newidiadau technegol y gallwch chi eu hargymell a fyddai'n galluogi'r weithdrefn cywiro datganiadau pleidleisio drwy'r post i fod yn fwy effeithiol?



Er bod cefnogaeth o blaid egwyddorion a nodau cyffredinol y weithdrefn, mynegodd sawl rhanddeiliad a ymatebodd i'r ymgynghoriad, yn enwedig y rhai o fewn y gymuned etholiadol, bryderon am ei chyflwyno ar hyn o bryd.

Roedd y pryderon allweddol sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- Cyflwyno'r weithdrefn ar yr un pryd ag y mae diwygiadau ehangach y Senedd yn cael eu datblygu. Cyfeiriodd rhanddeiliaid at bryderon am y trefniadau pleidleisio newydd ar gyfer etholiadau'r Senedd 2026 a chymhlethdodau trawsffiniol posibl gweithredu'r weithdrefn gywiro o fewn yr etholaethau newydd, mwy o faint.
- Y pwysau ychwanegol o ran adnoddau a llwyth gwaith i'r timau etholiadol a'r heriau sydd ynghlwm wrth weithredu'r weithdrefn gywiro o fewn amserlenni etholiadol cyfredol.
- Heriau wrth gyflawni a phrofi'r newidiadau EMS y byddai eu hangen i weithredu'r weithdrefn mewn digon o amser ar gyfer etholiad y Senedd 2026.
- Materion capasiti o ran cyflenwyr post a phrint a allai effeithio ar weithrediad effeithiol y broses a gallu'r gweinyddwyr i roi datganiadau newydd i etholwyr.


- A oedd y dyddiadau cau a ragnodwyd yn y weithdrefn arfaethedig yn caniatáu digon o amser i ddatganiadau newydd gael eu cyhoeddi a'u dychwelyd.
- Etholwyr yn cael eu trin yn wahanol yn dibynnu ar ba bryd y gwnaethant ddychwelyd eu pleidlais drwy'r post.
- Cyflwyno ymwahanu pellach rhwng etholiadau datganoledig ac etholiadau a gadwyd yn ôl.

Roedd rhanddeiliaid o blaid treialu'r weithdrefn gywiro cyn iddi gael ei chyflwyno'n llawn ledled Cymru. Roeddent yn pryderu y gallai cyflwyno "gweithdrefn heb ei phrofi" ar gyfer cywiro pleidlais drwy'r post yn etholiad y Senedd 2026 gynyddu pwysau adnoddau ar gyfer timau etholiadol a pheryglu cyflwyno'r etholiad yn llwyddiannus, yn enwedig yng ngoleuni'r diwygiadau ehangach sy'n cael eu symud ymlaen.

Awgrymodd rhanddeiliaid nifer o newidiadau technegol posibl i'r weithdrefn. Roedd y rhain yn cynnwys caniatáu cyflwyno datganiadau newydd yn electronig; gweithredu systemau awtomataidd i bleidleiswyr wirio bod eu pleidleisiau wedi dod i law; adolygu dyddiadau cau mewn gweithdrefnau cywiro; adolygu gwallau a fyddai'n gymwys o dan y weithdrefn; darpariaethau deddfwriaethol yn rhagnodi amseriad sesiwn agoriadol y bleidlais gyntaf drwy'r post; opsiynau i weinyddwyr wrthod datganiadau newydd mewn achosion o dwyll a amheuir; a gwelliannau i'r dyluniad a'r wybodaeth a ddarperir mewn pecynnau pleidleisio.

Cwestiwn 5 – Datganiad o aelodaeth plaid

A yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r gofynion newydd o ran datganiad o aelodaeth plaid yn eglur o ran yr hyn sy'n ofynnol gan ymgeiswyr?




O'r ymatebion a aeth i'r afael â'r cwestiwn, roedd y safbwyntiau yn gymysg. Nododd sawl un anghysondebau yn y ffordd y mae'r darpariaethau cyfatebol wedi'u cymhwyso mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol a chafwyd ceisiadau am ganllawiau cliriach.

Roedd sawl ymateb yn croesawu'r cysoniad â darpariaethau etholiadau lleol, ac roedd ceisiadau i'r ddwy system weithio yn yr un ffordd er mwyn osgoi dryswch. Dywedwyd bod yr angen i ddysgu gwersi o brofiadau'r un gofynion mewn etholiadau llywodraeth leol yn bwysig.

Fel y nodwyd uchod, codwyd pryderon hefyd mewn cyflwyniadau amryfal am yr anallu i ddefnyddio 'cyd-ddisgrifyddion' ar gyfer rhai ymgeiswyr sy'n nodi eu haelodaeth o fwy nag un blaid ar restrau pleidiau ar gyfer un o'r pleidiau hynny yn unig.

Cwestiwn 6 – Hygyrchedd

A ydych chi'n cytuno â'r darpariaethau newydd yn rheol 37 o Atodlen 5 ynghylch y cyfarpar a ddarperir mewn gorsafoedd pleidleisio i gynorthwyo pleidleiswyr anabl, sy'n unol â'r dull a fabwysiadwyd yn dilyn diwygiadau a wnaed gan Ddeddf Etholiadau 2022?



Roedd 72% o'r ymatebwyr o blaid yr egwyddor o ganiatáu mwy o hyblygrwydd i Swyddogion Canlyniadau o ran darparu cyfarpar hygyrch mewn gorsafoedd pleidleisio, yn unol â newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022. Roedd rhai rhanddeiliaid yn dal Swyddogion Canlyniadau yn atebol am ddarparu cymorth a chyfarpar digonol.

Er hynny, mynegodd rhai sefydliadau bryderon y gallai peidio â phennu cyfarpar wanhaus amddiffyniadau cyfreithiol i bleidleiswyr dall a rhai sy'n gweld yn rhannol, gan arwain o bosibl at fesurau hygyrchedd anghyson ar draws gorsafoedd pleidleisio a loteri cod post o ran darpariaeth. Pwysleisiodd RNIB Cymru bwysigrwydd darparu atebion cyffyrddadwy a sain i sicrhau bod pleidleiswyr dall yn gallu pleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol. Dywedodd hefyd fod y darpariaethau presennol yn rhoi'r cyfrifoldeb ar bobl ddall a phobl sy'n gweld yn rhannol i ofyn am addasiadau penodol ac nad yw llawer yn ymwybodol bod y rhain ar gael.

Awgrymodd rhai ymatebion y dylai EC ddarparu canllawiau clir i Swyddogion Canlyniadau. Nododd EC fod ei adroddiad ôl-bleidleisio wedi canfod bod mwyafrif helaeth (96%) o bleidleiswyr anabl yn ei chael yn hawdd cael mynediad at orsafoedd pleidleisio yn ystod etholiad cyffredinol seneddol y DU 2024, er bod angen gwelliannau pellach ar gyfer eu profiad pleidleisio. Canfuwyd hefyd nad oedd llawer yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael mewn gorsafoedd pleidleisio, gan nodi bod angen gwell cyfathrebu ynglŷn â'r cyfarpar a'r opsiynau cymorth cyn etholiadau.


Roedd awgrymiadau hefyd y dylai staff gorsafoedd pleidleisio gael eu hyfforddi'n ddigonol i gefnogi pleidleiswyr anabl, gydag argymhellion ar gyfer hyfforddiant ymwybyddiaeth colli golwg i sicrhau bod staff yn ymwybodol o hawliau ac anghenion pleidleiswyr dall a phleidleiswyr sy'n gweld yn rhannol.

Tynnodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru sylw at ystyriaethau pellach, gan gynnwys mewn perthynas â darparu gwybodaeth cyn yr etholiad mewn fformatau hygyrch, a chynnal ymgynghoriadau ag unigolion anabl ynghylch lleoliadau pleidleisio. Argymhellodd y dylid ystyried ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid a phleidleiswyr anabl i gynnwys rhestr o fesurau hygyrchedd sydd ar gael.

Tynnodd rhanddeiliad arall sylw at y nifer is o bleidleiswyr yng Nghymru ymhlith pobl anabl, a dweud mor bwysig ydyw bod Swyddogion Canlyniadau yn darparu dyfeisiau pleidleisio cyffyrddadwy, chwyddwydrau, bythau pleidleisio is, rampiau, mannau eistedd, a mannau parcio i'r anabl i wella hygyrchedd mewn gorsafoedd pleidleisio.

Cwestiwn 7 – Cynnwys a fformat y ffurflenni

A ydych chi'n ystyried bod cynnwys a ffurf y ffurflenni, yn ogystal â'r system rifo newydd, yn bodloni anghenion defnyddwyr?



O'r rhai a atebodd 'ie' neu 'nage' i'r cwestiwn hwn, nododd dros hanner fod y ffurflenni yn bodloni anghenion defnyddwyr. Nododd dau ymatebydd fod y ffurflenni a'r system rifo newydd yn gwella hygyrchedd a defnyddioldeb. Er hynny, tynnwyd sylw hefyd at yr angen am brofion trylwyr gyda gweinyddwyr etholiadol i osgoi dryswch.


Codwyd rhywfaint o bryder ymhlith rhanddeiliaid ynglŷn â'r dyluniad un golofn arfaethedig ar gyfer rhestru ymgeiswyr ar bapurau pleidleisio. Awgrymwyd y gallai hyn arwain at bapurau pleidleisio rhy hir, a fyddai'n cymhlethu argraffu a logisteg. Dangoswyd hefyd nad oedd elfennau gweledol defnyddiol mewn rhai ffurflenni, er enghraifft, cyfarwyddiadau darluniadol ar y cyfarwyddiadau ar gyfer pleidleisio, a fyddai'n gwella hygyrchedd y ffurflenni.

Roedd amryw o sylwadau mewn perthynas â ffurflenni sy'n gysylltiedig â phleidleisio drwy'r post gyda rhai yn honni bod angen rhywfaint o eglurhad yn achos cyfarwyddiadau penodol ynghylch datganiadau pleidleisio drwy'r post er mwyn osgoi dryswch, yn enwedig ynghylch dyddiadau cau. Ymdrinnir ag ymatebion ar ffurflenni sy'n ymwneud â'r weithdrefn gywiro arfaethedig yn fanwl o dan gwestiwn 4.

Codwyd rhai pwyntiau technegol pellach gyda'r bwriad o sicrhau eglurder a chysondeb o fewn y ffurflenni. Tynnodd rhai ymatebion sylw at bwysigrwydd cyflwyno pob ffurflen yn ddwyieithog ar gyfer gweinyddu effeithlon ac i sicrhau cydymffuriad cyfreithiol. Er hynny, roedd dau ymatebydd i'r cwestiwn hwn yn teimlo ei bod yn hanfodol darparu ffurflenni etholiadol ym mhrif sylfaenol y gynulleidfa darged. Nododd un ymatebydd nad oedd yn deall y cwestiwn.

Cwestiwn 8 – Ffurflenni templed

A ydych chi'n rhagweld y bydd y ffurflenni yn cael eu defnyddio fel y cânt eu cyflwyno yn y Gorchymyn terfynol, neu a fydd templedi newydd yn cael eu creu?



O'r rhai a oedd yn teimlo eu bod yn gallu ateb y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn teimlo y byddai angen creu templedi newydd. Nododd rhai ymatebwyr y byddai angen datblygu'r templedi newydd i ddarparu ar gyfer newidiadau mewn fformat a deunydd ysgrifennu ac i fod yn barod i'r defnyddiwr. Awgrymwyd y dylid ymgynghori ar ddylunio a phrofi gyda rhanddeiliaid. Er hynny, roedd rhai o blaid mabwysiadu ffurflenni safonedig yn gyffredin sy'n caniatáu rhai addasiadau lleol tra'n sicrhau cysondeb o ran cyfieithu. Awgrymwyd y gallai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol goruchwyllo cysondeb arferion ar draws Cymru.

Oherwydd yr angen am ffurflenni dwyieithog yng Nghymru, argymhellwyd bod pob ffurflen yn cael ei chyflwyno yn Gymraeg a Saesneg er mwyn lleihau'r beichiau gweinyddol a gwella effeithlonrwydd i Swyddogion Canlyniadau a chyflenwyr print.

Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn rhag-weld y byddai'r EC yn parhau i gynhyrchu ffurflenni enwebu ar ffurf templed, a ddylai fod yn destun ymgynghori a'u profi â rhanddeiliaid perthnasol.


Nodwyd hefyd fod rhai ffurflenni yn debygol o fod yn dtempledi o fewn meddalwedd EMS y Swyddog Canlyniadau, sy'n caniatáu i ffurflenni gael eu poblogi ymlaen llaw ag enwau, cyfeiriadau, a gwybodaeth berthnasol arall, gan hwyluso eu hargraffu a'u cyflwyno.

Cwestiwn 9 – y Gymraeg

Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y Gorchymyn drafft er mwyn gwneud y canlynol:

- cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

- neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?



Atebodd tua 72% o'r 43 o ymatebion sylweddol y cwestiwn hwn. Nid oedd ychydig dros 41% o'r ymatebwyr yn credu bod angen newid y Gorchymyn er mwyn gwella'r defnydd o'r Gymraeg neu i sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na Saesneg, neu i leihau unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg.

Roedd y sylwadau yn amrywio, gyda rhai o blaid triniaeth gyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg a ffurflenni a gwaith papur dwyieithog ac ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg. Ymhlith y rhain roedd galw am drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ym mhob dull cyfathrebu.

Ond awgrymodd eraill na ddylid blaenoriaethu'r Gymraeg dros y Saesneg a bod y Gymraeg yn cael ei gorgynrychioli yn y Gorchymyn. Tynnodd rhai ymatebion sylw at bryderon ynghylch goblygiadau ariannol cynhyrchu deunyddiau dwyieithog, gan awgrymu y gallai adnoddau gael eu dyrannu yn well o gofio'r hinsawdd economaidd bresennol. Roedd awgrymiadau eraill y dylai unigolion allu nodi eu dewis iaith ar gyfer gohebiaeth etholiadol.

Awgrymwyd mesurau pellach hefyd sydd y tu allan i gylch gorchwyl y Gorchymyn, megis mwy o gyllid ar gyfer deunyddiau etholiadol dwyieithog ac ymgyrchoedd cynhwysfawr Cymraeg i ymgysylltu â phleidleiswyr.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y Gorchymyn drafft yn gam cadarnhaol tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na Saesneg, yn enwedig mewn prosesau etholiadol.

Cwestiwn 10 – Unrhyw faterion pellach

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt.

Roedd nifer o themâu allweddol yn codi mewn ymateb i'r cwestiwn hwn a dywedodd un ymatebydd nad oedd fersiwn hawdd ei darllen o'r ymgynghoriad. Roedd pryder cyffredinol ymhlith gweinyddwyr yn deillio o newidiadau aml mewn cyfraith etholiadol a'r heriau cysylltiedig posibl. Amlygwyd hefyd nad oedd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i amserlenni na dyddiadau cau i leddfu pwysau gweinyddol.

Roedd pryderon hefyd am wahaniaeth rhwng etholiadau datganoledig ac etholiadau a gadwyd yn ôl, ac awgrymiadau ar gyfer cysoni i leihau dryswch a chymhlethdod. Nodwyd hefyd fod gwahaniaeth mewn gofynion pleidleisio yn cymhlethu'r broses i weinyddwyr, gan ei gwneud yn ddoeth osgoi cyfuno etholiadau.

Nodwyd nifer o fater a phryderon mewn perthynas â gweithdrefnau cywiro datganiadau pleidlais drwy'r post gan gynnwys dryswch etholwyr, ac amserlenni arfaethedig. Ymdrinnir â'r rhain yn fanylach yn yr ymatebion i gwestiwn 4.

Codwyd amryw o bwyntiau technegol eraill, er enghraifft gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a'r Comisiwn Etholiadol sydd wedi'u hystyried ac yr aed i'r afael â hwy lle bo'n briodol yn y Gorchymyn. Roed y rhain yn cynnwys asiantau etholiadol ac ymgeiswyr sy'n gweithredu fel eu hasiant eu hunain, y defnydd o enwau a ddefnyddir yn gyffredin mewn hysbysiadau etholiadol, taliadau i Swyddogion Canlyniadau ac agweddau rheoleiddio ariannol y Gorchymyn.

Rhoddodd Modern Democracy, cyflenwr cofrestrau gorsafoedd pleidleisio electronig, sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i'r rheolau, gan gynnwys dyroddi cardiau pleidleisio electronig a chofrestrau electronig.

Codwyd pryderon gan rai pleidiau gwleidyddol ynghylch y gofynion ernes uchel ar gyfer ymgeiswyr ar restr plaid. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai un ernes fesul rhestr yn ddull mwy rhesymegol.

Roedd cwestiynau hefyd ynglŷn â gofynion preswyllo ac ynghylch pa mor hir y mae angen i ymgeiswyr fod wedi byw yng Nghymru ac a oes angen i'r cyfnod hwn fod yn ddiweddar ac yn barhaus.

Fel rhan o'i ymateb, awgrymodd EHRC ystyried diwygiadau etholiadol ehangach i wella cyfranogiad pleidleiswyr, megis cofrestru ar yr un diwrnod a systemau pleidleisio amgen.

Cafwyd sylwadau hefyd na ddylai'r prosiect ddigwydd ar adeg o galedi economaidd, na ddylai nifer aelodau'r Senedd a Gweinidogion gynyddu ac ynghylch ailenwi'r etholaethau newydd ac y dylid gwario'r arian mewn manau eraill. Er hynny, nid oedd y rhain yn gymwys i'r ymgynghoriad.

4. Digwyddiadau ymgysylltu a rhanddeiliaid

Gwahoddwyd sylwadau fel rhan o ymgynghoriad 12 wythnos a gynhaliwyd o 25 Tachwedd 2024 i 17 Chwefror 2025. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghoriadau gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar-lein, drwy e-bost neu'r post, ac yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Cynlluniwyd y rhain i hysbysu rhanddeiliaid ac ateb unrhyw ymholiadau ar ddarpariaethau penodol, neu'r dull a ddefnyddiwyd. Ymgysylltodd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd â rhanddeiliaid allweddol drwy gyfarfodydd arferol parhaus a chysylltiad anffurfiol i brofi cymhwysiad ymarferol y cynigion.

Cynhaliwyd pum digwyddiad i rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori, un ohonynt yn union cyn i'r ymgynghoriad gael ei lansio. Cynhaliwyd un digwyddiad ar gyfer rhanddeiliaid gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai. Cynhaliwyd digwyddiad penodol ar ddarpariaethau cywiro pleidlais drwy'r post. Darparwyd trosolwg o'r Gorchymyn drafft i aelodau o Grŵp Democratiaeth Cymru, a darparwyd sesiwn frifffio i bleidiau gwleidyddol.

Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Senedd yr ymgynghoriad at y Pwyllgor Biliau Diwygio i'w ystyried. Bwriedir i ganfyddiadau'r Pwyllgor lywio gwaith datblygu Llywodraeth Cymru ar y Gorchymyn drafft Cynnal Etholiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cafodd y Pwyllgor sesiwn brifffio technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar 23 Ionawr 2025. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i sesiwn graffu ar 5 Chwefror 2025. Cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ar 27 Chwefror.

5. Y camau nesaf

Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) gerbron y Senedd ym mis Mai. Bwriedir i'r Gorchymyn gael ei wneud cyn cyfnod toriad haf y Senedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r holl safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn a fydd yn helpu i sicrhau bod y Gorchymyn terfynol yn addas i'r diben. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid ynghylch rhoi'r Gorchymyn ar waith cyn etholiadau'r Senedd 2026.

Bydd unrhyw newidiadau sylweddol i'r Gorchymyn yn cael eu nodi yn y memorandwm esboniadol diwygiedig a gaiff ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r Gorchymyn.

6. Rhestr o'r ymatebwyr

Cafwyd ymatebion gan y sefydliadau a'r unigolion canlynol.

- 15 ymateb dienw
- Age Cymru
- Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol
- Tîm Etholiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Tîm Etholiadau Cyngor Caerdydd
- Tîm Etholiadau Cyngor Sir Caerfyrddin
- Prif Weithredwr / Swyddog Canlyniadau Cyngor Sir Ceredigion
- Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Y Blaid Gydweithredol
- Y Comisiwn Etholiadol
- Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru
- Emyr Williams
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
- Gill Powell
- Y Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Annibynnol
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Ynys Môn
- Kristine Moore
- Democratiaeth Fodern
- Tîm Etholiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Nick Mavroyenneas
- Ni ddarparwyd enw
- Plaid Cymru
- Rhys Davies
- RNIB Cymru
- Bwrdd Cydlynw Etholiadol Cymru
- Plaid Werdd Cymru
- Llafur Cymru
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru